Y Pwyllgor Cyllid
—
Finance Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

21 Medi 2021

Annwyl Rebecca,

Adolygiad Annibynnol o’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Gorffennaf 2021 ynghylch adolygiad annibynnol o’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae’r Aelodau’n croesawu’r adolygiad hwn, yn dilyn yr ymrwymiad a wnaed yn ystod taith Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (y Ddeddf) drwy’r Senedd, ac maent yn ddiolchgar am y cyfle i wneud sylwadau ar ei gwmpas arfaethedig.

Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r egwyddorion allweddol a'r tair thema eang sy'n ymwneud â refeniw, newid ymddygiad a’r effaith amgylcheddol. Mae'r Aelodau'n nodi bod yr adolygiad yn cynnwys asesiad o effaith cyfradd gwarediadau anawdurdodedig y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar atal gwarediadau gwastraff anawdurdodedig yng Nghymru. Rydym hefyd o’r farn ei bod yn werth archwilio effeithiolrwydd y camau gorfodi a gymerir mewn ymateb i warediadau anawdurdodedig i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

Mae Aelodau hefyd yn nodi bod adran 92 o’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi o fewn pedair blynedd ar ôl i’r cynllun gael ei gyhoeddi. At hynny, byddai’r Aelodau’n ddiolchgar pe gallech egluro a fydd y cynllun hwn yn cael ei ystyried fel rhan o’r adolygiad ehangach neu a fydd yn cael ei adolygu ar wahân.

Edrychwn ymlaen at weld canlyniad y gwaith hwn.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.